# SL(5)674 – Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau, yn dilyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu y bydd y fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol ar y cyd – a darparu gwasanaethau proffesiynol dros dro, ac yn achlysurol, fel gweithiwr cymdeithasol neu reolwr gofal cymdeithasol – yn parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru.

Mae'r rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn i'r graddau eu bod yn ymwneud â darparu gwasanaethau o'r fath gan bobl a gwmpesir gan y cytundebau y mae'r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddynt gyda'r Swistir, a gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop, i amddiffyn hawliau dinasyddion.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn gweithredu cytundebau yr ymrwymwyd iddynt rhwng y Deyrnas Unedig ac:

- Y Swistir a
- Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy (gwladwriaethau’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop),

ar hawliau dinasyddion, i'r graddau bod y cytundebau hynny'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol ar y cyd, a darparu gwasanaethau proffesiynol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**8 Rhagfyr 2020**